**EPT-02-01 (p 4)**

**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 31 Ionawr 2001

**Amser:** 2.00pm i 5.30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

## AROLWG POLISI: ADRODDIAD GAN YR YMGYNGHORYDD ARBENIGOL

### Pwrpas

1. Cynghori'r pwyllgor yngln ag enghreifftiau o arferion gorau a ffynonellau eraill o wybodaeth sydd ar gael am drafnidiaeth gyhoeddus integredig, ac argymell comisiynu gwybodaeth ychwanegol mewn rhai meysydd.

### Cefndir

2. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor, a'r cyflwyniadau a wnaed hyd yma, wedi dechrau darparu gwybodaeth y gellir ei defnyddio i ddatblygu opsiynau polisi'r pwyllgor. Fodd bynnag, teimlaf fod rhai bylchau yn y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a'm cyngor i yw ceisio rhagor o fewnbwn.

3. Erbyn dyddiad y pwyllgor, dim ond newydd ddechrau fydd yr ymweliadau. Hoffwn nodi cyd-destun, amcanion a chanlyniadau posibl yr ymweliadau yn yr adroddiad hwn. Yn arbennig, pam y cafodd yr ymweliadau eu hawgrymu, beth sydd i'w weld, beth y gellid ei ddysgu, a sut y gellid eu defnyddio i ddatblygu opsiynau polisi'r Aelodau.

### Sefyllfa Trafnidiaeth Gyhoeddus yng Nghymru

4. Beth a etifeddwyd, a beth yw'r tueddiadau? At ddibenion meincnodi, rwyf wedi nodi dangosyddion allweddol yn **Atodiad 1**. Ein gwaelodlin yw mai dim ond 8.6% o deithiau i'r gwaith a wnaethpwyd ar drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru ym 1991.

### Ymweliadau Arfer Gorau

4. Nodir prif amcanion yr ymweliadau yn **Atodiad 2** ynghyd â'm gwerthusiad o'r hyn sydd i'w

weld a’r canlyniadau posibl er mwyn i’r Aelodau gael eu hystyried. Fy mwriad yw cynhyrchu nodiadau briffio cyn pob ymweliad a gweithio gyda’r Clerc a’r Aelodau o dan sylw i lunio adroddiad i’w roi yn ôl i’r Pwyllgor, fel rhan o’r broses werthuso.

**Y Wybodaeth Sydd Ar Gael**

6. Nodais y wybodaeth sydd ar gael i’w defnyddio yn yr Arolwg **yn Atodiad 3**. Nid oes, yn fy marn i, ddiffygion digamsyniol i ddal yr Arolwg yn ôl, ond mae rhai meysydd diffygiol y dylid darganfod rhagor o wybodaeth amdanynt yn fy marn i. Y meysydd hyn yw:

- **trafnidiaeth gymunedol / enghreifftiau nas cofnodwyd o rannu ceir / pwlio ceir / trefnu clybiau ceir –** drwy sgwrsio â phobl cafwyd rhywfaint o dystiolaeth fod argyfwng tanwydd mis Medi wedi arwain at nifer sylweddol o bobl yn rhannu ceir a threfniadau eraill nas cofnodwyd. Nid yw’n glir faint o’r trefniadau hyn a oroesodd yr argyfwng, a phroblemau diweddar y diwydiant rheilffyrdd. Hwyrach y bydd y pwyllgor am gomisiynu dadansoddiad o wasanaethau "trydydd lefel" (sef unrhyw beth o ddibynnu ar gar preifat i wasanaethau bws confensiynol). Byddai hyn yn darganfod beth sy’n bodoli, beth sydd yn yr arfaeth, ac unrhyw alw yn y maes rhannu ceir, clybiau ceir a phwlio ceir.
- **gwybodaeth fanylach am flaen-gynlluniau buddsoddi aelodau o’r sector preifat** – hwyrach y bydd y pwyllgor am wahodd Conffederasiwn Trafnidiaeth y Teithwyr (CPT) i gefnogi eu tystiolaeth;
- **darlun manylach o waith cynnal a chadw ffyrdd awdurdodau lleol** (o ystyried fod y rhan fwyaf o drafnidiaeth gyhoeddus ar ffyrdd, ac yn dibynnu ar waith da o ran cynnal a chadw ffyrdd) – hwyrach y gwahoddir Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) i lunio adroddiad ar hyn.

**"Beth sy’n Gweithio" yng Nghymru?**

7. Yn erbyn y pwyntiau cyffredinol uchod, canfyddir beth sy’n gyffredin am y wybodaeth a gyflwynwyd hyd yma; amlinellir hyn yn **Atodiad 4**.

**Arfer Gorau Ewropeaidd mewn Trafnidiaeth**

8. Mae’r Comisiwn ar gyfer Trafnidiaeth Integredig (CfIT) wedi cynhyrchu adroddiad ar Arfer Gorau Ewropeaidd mewn Trafnidiaeth – *Benchmarking* (Tachwedd 2000) ac rwy’n teimlo ei fod yn agos iawn at yr hyn yr ydym am ei sefydlu yng Nghymru. Mae canlyniadau cryno’r adroddiad hwnnw yn fan cychwyn da i drafodaeth, a gwelir hwy yn **Atodiad 5.**

**Rhai Ymadroddion Brathog**

9. O’r ymatebion a’r cyflwyniadau hyd yma, ymddangosodd rhai ymadroddion brathog sy’n cyfleu’n well na dadansoddiadau amleiriog hanfodion y problemau a wynebir a’r cwestiynau y dylid eu hateb yn yr Arolwg hwn.

- "Os datryswn broblem trafnidiaeth gyhoeddus, fe ddatryswn broblem cynaliadwyedd i raddau helaeth" (Asiantaeth yr Amgylchedd)
- "Trafnidiaeth Gyhoeddus effeithiol yw prawf litmws cynaliadwyedd" (Asiantaeth yr Amgylchedd)
- "Mae’n rhaid i ni wneud iawn am 20 mlynedd o danwario ar drafnidiaeth" (TIGER)
- "Mae costau ceir wedi sefydlogi ers talwm, tra mae costau trafnidiaeth gyhoeddus, yn arbennig trenau (lle mae pris y tocyn yn talu am gostau cynnal a chadw’r trac) wedi codi"

  (SWITCH)

- "Adnoddau – nid ad-drefnu – sydd ei angen ar drafnidiaeth gyhoeddus"

  (WLGA)

**Canlyniadau**

10. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi’r enghreifftiau o arferion gorau a ffynonellau eraill o wybodaeth sydd ar gael, a chytuno i gomisiynu’r wybodaeth ychwanegol y soniwyd amdani ym mharagraff 6.

**Denys Morgan**

**Ymgynghorydd Arbenigol**

Ionawr 2001